# Papur Testun Rhif 18
# Twristiaeth - Crynodeb

**Cyflwyniad**

Dylai'r system gynllunio annog twristiaeth gynaliadwy i ddod â buddion sylweddol i'r economi leol a mewnfuddsoddi, gan d

- darparu canllaw ynglŷn â mynediad at gefn gwlad a'r arfordir at ddibenion twristiaeth.

**Polisïau / Cynigion Defnydd Tir Posibl**

Roedd y CDU yn cynnwys 10 o bolisïau a chynigion yn y bennod 'Twristiaeth'. Mae nifer o'r rhain yn bolisïau manwl a thra bo rhai ohonynt yn cael eu defnyddio, yn aml iawn mae canllawiau ar gael mewn rhannau eraill o'r Cynllun, neu gallai'r polisïau gael eu cyfuno i fod yn fwy cryno a chanolbwyntiedig. Yn dilyn asesiad o bolisïau'r CDU cynigir fod y prif bolisïau a chynigion yn ymwneud yn bennaf â:

Canllaw ar gyfer datblygu atyniadau twristiaeth newydd neu ymestyn rhai presennol.
Canllaw ar gyfer datblygu llety â gwasanaeth neu lety hunanddarpar newydd i dwristiaid neu ymestyn rhai presennol.
Canllaw ar gyfer llety i dwristiaid yn gysylltiedig â charafannau.
Adolygu ardaloedd Talacre, Gronant a Gwesbyr lle mae datblygu twristiaeth carafannau'n cael ei wrthod.
Dynodiad twristiaeth i ddiogelu buddion Dyffryn Maes Glas.